# Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

# Cylchlythyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Cylchlythyr: | WGC 003/2013 | Dyddiad cyhoeddi: | 01 / 09 / 2013 |

| | |
|---|---|
| Statws: | Er gwybodaeth |
| Teitl: | Rheoli Adeiladu gan Arolygwyr Cymeradwy: rhan II Deddf Adeiladu 1984 |

**Cyhoeddwyd gan:**

Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

| Cyfeiriwyd at: | Anfonwch ymlaen at: |
|---|---|
| Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Association of Corporate Approved Inspectors<br>Cyngor y Diwydiant Adeiladu<br>Fforwm Personau Cymwys | Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau<br>Aelodau'r Cynulliad |


**Crynodeb:**

Mae'r cylchlythyr hwn yn eich hysbysu y byddwn yn tynnu yn ôl y Rheol Dolen Sicrwydd sy'n berthnasol i waith adeiladu yng Nghymru. Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2013, penderfynwyd tynnu yn ôl y Rheol Dolen Sicrwydd. Bydd hyn yn digwydd ar 1 Medi.


**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**


| | |
|---|---|
| Colin Blick - Rheoliadau Adeiladu<br>Swyddfa Llywodraeth Cymru<br>Merthyr Tydful - CF48 1UZ | Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8144<br>E-bost: enquiries.brconstruction@wales.gsi.gov.uk<br>Gwefan: wales.gov.uk/topics/planning/buildingregs/ |



© Hawlfraint y Goron 2013 WG 19471

Annwyl Syr/Madam,

**Gwaith Rheoli Adeiladu gan Arolygwyr Cymeradwy dan Rhan II Deddf Adeiladu 1984.**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Cylchlythyr hwn yn cyhoeddi bod y Rheol Dolen Sicrwydd yn cael ei dileu ar 1 Medi 2013, a bod y cyfyngiadau ar y mathau o anheddau lle gall Arolygwyr Cymeradwy wneud gwaith reoli adeiladu hefyd yn cael eu dileu yng **Nghymru**.

2. Mae Cylchlythyr Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (SDBW) dyddiedig 31 Hydref 2005, sy'n rhoi manylion ynghylch cyflwyno'r Rheol Dolen Sicrwydd, yn cael ei dynnu yn ôl mewn perthynas â gwaith adeiladu yng Nghymru. Mae'r ddolen i'r cylchlythyr SDBW o 31 Hydref 2005 yn: http://www.communities.gov.uk/documents/planningandbuilding/pdf/142322.pdf. Bydd hyn yn digwydd ar 1 Medi 2013.

**Dileu'r Rheol Dolen Sicrwydd**

3. Cyflwynwyd y Rheol Dolen Sicrwydd yn 2005, pan agorwyd y farchnad rheoli adeiladu cartrefi newydd i Arolygwyr Cymeradwy y tu allan i'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (a fu'n gweithredu yn y sector ers 1985). Y bwriad oedd lleddfu pryderon nad oedd gan Arolygwyr Cymeradwy ddigon o brofiad o arolygu gwaith ar gartrefi newydd. Roedd Cylchlythyr SDBW dyddiedig 31 Hydref 2005 yn rhoi manylion ynghylch cyflwyno'r Rheol Dolen Sicrwydd, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i anheddau newydd gael eu cofrestru dan gynllun sicrwydd penodol pan fyddai Arolygydd Cymeradwy yn gwneud gwaith rheoli adeiladu mewn perthynas ag anheddau newydd i'w rhentu neu werthu'n breifat.

4. Ym mis Ebrill 2013, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i newid y Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru, gan gynnwys y cynnig i ddileu'r Rheol Dolen Sicrwydd. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid y cynnig. Ceir copi o grynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/consultations/planning/building-control-system/?lang=cy

5. Bydd y Rheol Dolen Sicrwydd yn cael ei dileu ar 1 Medi 2013 mewn perthynas â hysbysiadau cychwynnol, hysbysiadau diwygio, a hysbysiadau cychwynnol wedi'u cyfuno â thystysgrifau cynllunio sy'n cael eu rhoi ar neu ar ôl 1 Medi 2013 ar gyfer gwaith adeiladu yng Nghymru. O 1 Medi 2013 ymlaen ni fydd gofyn i Arolygwyr Cymeradwy gadarnhau bod anheddau newydd wedi'u cofrestru gyda darparwr cynllun sicrwydd penodol cyn ymgymryd â swyddogaethau rheoli adeiladu ar waith adeiladu neu addasu i greu anheddau newydd i'w gwerthu neu rentu'n breifat.

6. Nid oedd y Rheol Dolen Sicrwydd yn berthnasol i awdurdodau lleol ac felly nid yw'n effeithio ar waith cyrff rheoli adeiladu awdurdodau lleol.

**Cynlluniau Sicrwydd Penodol.**

7. Ar ôl dileu'r Rheol Dolen Sicrwydd ni fydd gofyn am gynlluniau sicrwydd penodol at y pwrpas hwnnw, a bydd dynodiadau presennol cynlluniau o'r fath felly yn dod i ben o 1 Medi 2013 ymlaen yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar ddilysrwydd y gwarantiadau sydd eisoes yn eu lle. Bydd y rhai a ddosbarthwyd gan ddarparwyr cynllun sicrwydd penodol cyn 1 Medi 2013 yn parhau i fod yn ddilys am eu 10 mlynedd lawn.

**Cymeradwyo Arolygwyr Cymeradwy**

8. Yn unol â chymeradwyaeth ac ail-gymeradwyaeth gan Gyngor y Diwydiant Adeiladu, mae Arolygwyr Cymeradwy yn cael eu cymeradwyo at ddibenion Rhan II Deddf Adeiladu 1984 i oruchwylio cynlluniau a phob math o waith adeiladu. Dylai Arolygwyr Cymeradwy nodi bod y cyfyngiadau blaenorol ar y mathau o anheddau lle mae modd iddynt wneud gwaith rheoli adeiladu yn cael eu dileu o 1 Medi 2013 ymlaen.

9. Lle bo unrhyw gymeradwyaeth bresennol yn cyfeirio at y Rheol Dolen Sicrwydd, bydd y cyfeiriad hwnnw yn ddi-rym mewn perthynas â hysbysiadau cychwynnol, hysbysiadau diwygio a hysbysiadau cychwynnol wedi'u cyfuno â thystysgrifau cynllunio sy'n cael eu rhoi ar neu ar ôl 1 Medi 2013 ar gyfer gwaith adeiladu yng Nghymru (ac fe ddylid darllen telerau'r gymeradwyaeth fel pe na bai cyfeiriad at y Rheol Dolen Sicrwydd). Mae gofynion y Rheol Dolen Sicrwydd mewn perthynas â hysbysiadau cychwynnol, hysbysiadau diwygio a hysbysiadau cychwynnol wedi'u cyfuno â thystysgrifau cynllunio sy'n cael eu rhoi cyn 1 Medi 2013 yng Nghymru yn parhau i fod mewn grym. Ni fydd unrhyw gymeradwyaeth ac ail-gymeradwyaeth ar neu ar ôl 1 Medi yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y Rheol Dolen Sicrwydd.

**Ymholiadau**

10. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.
Ffôn: 03000 628144.
E-bost Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir

**Francois Samuel**
**Pennaeth Rheoliadau Adeiladu**